Copi o lythyr Mr. Evan Jones (Tyddyn Bach gynt) at Mr. Ellis Jones, Clerk y Cyngor Plwyf, Llanbedr.
1 Jones St, Blaenau Ffestiniog, 28-7-38

Annwyl Gyfaill,

Cefais dafod iawn gan yr hen wraig pan ddois i'r ty am na fuaswn wedi dod a chwi eich dau yma am de, ond dywedais fy mod wedi ceisio gennych ddod fel nad ydi y bai i gyd ddim arna innau! Ond disgwyliaf eich bod, pawb tua Llanbedr yn weddol fel ninnau. Mae'r gwlaw yn drwm iawn heddyw yma, fel mae ty ydi y lle gorau, ac felly yr wyf yn trio sgriblo ychydig om cof am hadgofion i chwi, yn hyn yr oeddwn yn meddwl bob dydd, ond heddyw yw y cyfle. Wel gyda golwg ar yr hyn y buoch yn siarad a mi y dydd or blaen, sef y lle y saif pont Mr. John Morris arno heddyw, daeth i'm cof, pan oeddwn yn hogyn yn yr ysgol, cofiaf yn dda mae i Dalgarreg Bach y byddai William a minnau yn mynd i fwyta ein tamaid ganol dydd, oblegid yno yr aeth Ellin fy chwaer i fyw gyntaf ar ol priodi a hynny ar Chwefrol 13 1868, sef 70 mlynedd yn ol, a chofiaf yn dda fel y byddem yn mynd i sgota dwylo i'r afon ganol dydd lawer tro, a chofiaf yn dda fel y byddai William Jones Talgarreg yn mynd a'r ddwy fuwch drwy yr afon i ochor Tyddyn y Pandy, yr oedd llain o dir rhwng yr afon a dolydd Tyddyn Pandy yn y tro gyferbyn ag adwy'r ddol ac i lawr hefo'r ddol isaf a'r ddol fach ran hynny a chlywais ddeud lawer gwaith mai perthyn i Dolgarreg o bob tu i'r + (1) afon yr oedd. Yr oedd yno rhiw ynys fach yn yr afon heb fod one ychydig oddiwrth glawdd cae Talgarreg, a heibio hono yr oedd y gwartheg yn croesi, yr oedd gan honno rhyw fath o ryd i fynd trwodd y pryd hynny. Cofiaf yn dda un tro fod mam wedi rhoi neges i mi fynd i Shop Robert Griffith nawr (sef Hen Siop) ar ol dod or ysgol a dod adref drwy'r gloddfa, a dyna oedd hynny, eisiau rhywbeth i'r babi oedd gennym pryd hynny sef David Richards Pensarn yn awr, neu Pantgolau neu rhywbeth yn awr. Nhad a mam ddarfu ei fagu ef nes yr oedd yn 7 oed. Ie, dyna oeddwn yn mynd i ddweud, y diwrnod hwnnw pan yn mynd i lawr yr oedd Eliza Jones Talgarreg yn nol y gwartheg i'r fan honno a doedd yr hen wartheg ddim am ddod felarfer, a hithau yn gwaeddi arnynt, a dyna hi yn cynnig ceiniog i un ohonym am fynd drwy yr afon i'w nol, a cofiaf fod Evan Sioned a rhywun arall wedi mynd i ben y cei lle mae grisiau yn mynd i'w ben a dyna lle roeddant yn lluchio cerrig dros yr afon atynt, ond roedd yr hen wartheg yn mynd yn bellach, ac os cofiaf yn iawn mai John y Gwyndy ac Owen Eliza Lloyd aeth drwy'r afon i'w nol. Y oedd yr hen Bridget Ellis y Felin yn nol ei gwartheg hithau o'r gors, sef yr ochor arall i'r ffordd. Yr wyf yn dweud hyn i geisio dangos i chwi mai Talgarreg oedd yn hawlio yr hyn sydd dan sylw. Hefyd cofiwch mai trwy yr rhyd hwn ~~xxxxxxxx~~ oedd y ffordd i Dyddyn Pandy ac i Gellilas a Dolmygliw ystalwm, sef ffordd geffyl a car llusg fel fyddai yn yr hen amser, Yr oedd y ffordd yn arwain hefo'r afon o hyd ac yn dod i fyny wrth lidiart Dolmygliw fel y gwelwch hi yn codi i fyny gyferbyn a llyn y Felin pan oeddynt yn gweithio y chwarel; dyna pryd y gwnaeth y cwmni y ffordd at Tanyffridd a chau yr hen ffordd a nwbel, ac fe ddywedir fod yna Bandy yn rhywle o dan y domen dyna fel ei gelwir yn Dyddyn Pandy. Clywais John Owen Pen y Garth yn dweud wrthyf rhywdro mai yna neu ar dir Dolmygliw y cafodd e ei eni ai fagu, yr oedd ef yn frawd a Lewis Jones Tynywern ac Owen Jones Feiliwr ac yn gefndar a Aion Llwyd taid plant Ioad Thomas, Tad John Lloyd a thad John Owen yn frodyr.
*(2) O ie dweud yr oedd John Owen fod yr hen dy lle ganed ef newydd i chwi fynd drwy llidiart o'r coed cyn mynd i'r hwylfa at y ty presennol, ac mai Brynllwyd oedd ie enw os cofiaf yn iawn. Yr oeddyffordd o'r Dyffryn yn dod yn union oddiwrth gamdda'r Gilfach a heibio drws Hen Efail a heibio Penrhiw (coffa da am yr hen dy) ac i lawr at Danrhiw, ac yna drwy yr afon yn ymyl yr hen goeden gelyn Pen y bont ac am Dan y Wenallt a Thyncarrleg a Hen Bandy, ad i'r ffordd wrth Bensarn doedd Sarn Hir ddim wedi ei gwneud yn amser fy nain, hithau yn ferch

Argoed, yn ferch ifanc yn y flwyddyn 1809 y darfu briodi. Wel dyna ddigon i anweledig, wn i ddim faint o werth bydd hyn i chwi.
Maddeuwch am y sgriblo hyn hefo led pencil.

Cofion fyrdd atoch a chofiwch fi at J Arthur a phawb.

Yr eiddoch,

Evan Jones.

*1 Talu am le i'r gwartheg, 3/0 yn y flwyddyn i Dyddyn Pandy yr oedd Talgareg ac nid yn ei biau nai hawlio.

*2 Tad Sion Owen a mam Sion Llwyd oedd yn frawd a chwaer - Plant Tyn Llan, Llanbedr.